

Cyflwynwyd yr ymateb i ymgynghoriad y [Pwyllgor Cyllid](#) ar [Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26](#).

This response was submitted to the [Finance Committee](#) consultation on the [Welsh Government Draft Budget 2025-26](#).

WGDB25-26(6)27: Ymateb gan: Cyngor ar Bopeth Cymru | Response from: Citizens Advice Cymru



Tystiolaeth Cyngor Ar Bopeth Cymru i'r Pwyllgor Cyllid

Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 (Tachwedd 2024)

1. Cyflwyniad:

- 1.1. Mae Cyngor ar Bopeth yng Nghymru yn rhwydwaith o 19 o swyddfeydd lleol, pob un ohonynt yn elusennau unigol, sy'n cynnig cyngor cyfrinachol am ddim ar-lein, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb.
- 1.2. Ers mis Ionawr 2024 rydyn ni wedi helpu dros 123,000 o bobl ledled Cymru gydag amryw o broblemau, gan gynnwys problemau gyda budd-daliadau, dyledion, cymorth mewn argyfwng, tai, cyflogaeth, gwahaniaethu, perthnasoedd a hawliau defnyddwyr. Yn aml, mae angen help ar bobl gyda mwy nag un mater.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad:

2. Pa gamau y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd i helpu aelwydydd i ymdopi â chwyddiant a materion costau byw?

- 2.1. Mae cannoedd o filoedd o bobl ledled Cymru'n dal i deimlo effeithiau'r dirywiad mewn safonau byw rydym wedi'i weld dros y degawd diwethaf, ac mae'r pandemig a'r argyfwng costau byw wedi gwneud pethau hyd yn oed yn waeth. Mae tystiolaeth gan ein cleientiaid a gwaith ymchwil a gomisiynwyd yn tynnu sylw at faint o bobl sy'n ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd drwy'r amser, gan dorri'n ôl ar hanfodion neu fynd hebddynt, mynd i fwy a mwy o ddyledion, a/neu ddibynnu ar gymorth mewn argyfwng i gadw eu cartrefi'n gynnes a rhoi bwyd ar y bwrdd. Er bod chwyddiant bellach yn llawer is nag yr oedd, parhau mae sgil effeithiau'r lefelau chwyddiant uchel diweddar a chostau byw uwch.
- 2.2. [Hyd yma yn 2024](#), mae mwy o bobl wedi dod i swyddfeydd lleol Cyngor ar Bopeth ledled Cymru i gael cyngor ar ddyledion aelwydydd, digartrefedd a materion cymorth mewn argyfwng nag ar unrhyw adeg yn ystod y pum mlynedd flaenorol. Ar anterth yr argyfwng costau byw, roedd hanner ein holl gleientiaid dyledion yn byw ar gyllideb negyddol, lle nad oedd eu hincwm yn ddigon i dalu eu holl gostau hanfodol. Bu gostyngiad bychan i

hyn ers hynny (47% yn 2024) ond mae'n dal yn llawer uwch nag yr oedd bum mlynedd yn ôl (40% yn 2019).

- 2.3. Cadarnhaodd ein hadroddiad diweddar, [Cyrraedd Pwynt Argyfwng](#), nad cymorth unwaith ac am byth yw ymyriadau argyfwng ar gyfer miloedd o aelwydydd yng Nghymru, ond mae'n angen sy'n codi dro ar ôl tro dim ond i gadw eu pennau uwch law lefel y dŵr. Fwyfwy, mae pobl bellach yn cynnwys taliadau argyfwng a chefnogaeth yn eu cyllidebau oherwydd na allant fforddio hanfodion sylfaenol hebddynt. Mae hyn yn tanlinellu'r newid sydd wedi bod yn y sefyllfa o fod mewn argyfwng: mae'r hyn a oedd ar un adeg yn ddigwyddiad annisgwyl, tymor byr ym mywyd person bellach wedi newid i fod yn frwydr barhaus o beidio bod â digon o arian i dalu costau byw hanfodol.
- 2.4. Wrth gymharu 10 mis cyntaf 2021 (cyn dechrau'r argyfwng ynni) â 10 mis cyntaf eleni, mae ein swyddfeydd lleol wedi gweld cynnydd o 119% yn nifer y bobl sy'n dod atynt mewn sefyllfaoedd argyfyngus¹. Hyd yma eleni, bu cynnydd sylweddol hefyd yn nifer y bobl sy'n dod atom i gael cymorth gyda cheisiadau ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol neu faterion yn ymwneud â'r Gronfa, gan gyrraedd 8,307 o bobl erbyn diwedd mis Hydref 2024, 32% yn uwch na'r un adeg yn 2023. Mae ein data'n awgrymu bod pobl sy'n byw gyda chyflwr iechyd hirdymor neu anabledd, aelwydydd un oedolyn (gan gynnwys y rheini sydd â phlant), a rhentwyr cymdeithasol angen ein cymorth mewn argyfwng yn amlach nag eraill.
- 2.5. Er mwyn helpu i liniaru effaith y cynnydd mewn costau byw, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mewn amryw o ymyriadau cymorth mewn argyfwng penodol dros y 3 blynedd diwethaf. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad sylweddol yn y Gronfa Cymorth Dewisol, sydd wedi helpu i roi cymorth hanfodol i lawer o bobl pan oedd ei angen fwyaf arnynt. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer ein hadroddiad diweddar [Cyrraedd Pwynt Argyfwng](#), a'r dystiolaeth a gasglwyd gan eraill, gan gynnwys [Sefydliad Bevan](#), [Cartrefi Cymunedol Cymru](#) a [Trussell](#), yn cadarnhau **nad dyma'r amser iawn i leihau cymorth o'r fath**.
- 2.6. Mae perygl y gallai methu â chynnal lefelau cyllid y Gronfa, o leiaf i'r lefel bresennol, yn arwain at fwy o gostau tymor hir, fel gwaethygu iechyd y cyhoedd a mwy o ddigartrefedd.

Felly, mae Cyngor ar Bopeth Cymru'n galw ar Lywodraeth Cymru i ddiogelu cyllid ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol yn y dyfodol a

¹ Dylid nodi hefyd bod mecanweithiau atgyfeirio newydd a/neu gryfach wedi cael eu datblygu ers y pandemig rhwng Cyngor ar Bopeth a sefydliadau eraill gan gynnwys Trussell a'r Gronfa Cymorth Dewisol, felly bydd hyn hefyd wedi cael effaith ar niferoedd.

chynyddu'r dyraniad ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 er mwyn diwallu'r angen parhaus a chynyddol am y cymorth hanfodol hwn.

- 2.7. Mae biliau cynyddol aelwydydd dros y blynyddoedd diwethaf wedi cyfrannu at y trafferthion ariannol y mae llawer o bobl wedi bod yn eu hwynebu, yn enwedig cost gynyddol ynni. Nid eitem foethus yw ynni. Mae'n hanfodol bod pob cartref ar dymheredd cyfforddus, i lanhau eu dillad eu hunain a dillad eu plant, i gael cawod a phweru goleuadau a dyfeisiau electronig. Y gaeaf diwethaf, roedd dros chwarter aelwydydd (26%) Cymru'n cael trafferth cadw eu cartrefi'n gynnes, ac roedd, aelwydydd â phlant a'r rheini ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor ymysg y rhai a gafodd eu taro galetaf².
- 2.8. Er gwaethaf gostyngiad sylweddol o'u lefelau uchaf, mae prisiau ynni cyfartalog y gaeaf hwn yn dal i fod £500 yn uwch nag yr oeddent yn 2021. Canfu ymchwil ddiweddar a gomisiynwyd gan Gyngor ar Bopeth Cymru fod 3 aelwyd o bob 5 (59%) yng Nghymru'n poeni a fyddant yn gallu fforddio eu biliau ynni y gaeaf hwn yn sgil y cap prisiau newydd (£1,717), a ddaeth i rym ym mis Hydref³. Gydag arbenigwyr yn rhagweld cynnydd bychan yn y cap ar brisiau ynni unwaith eto ym mis Ionawr⁴, mae sail gadarn i bryderon o'r fath.
- 2.9. Mae costau ynni anfforddiadwy yn golygu bod perygl y bydd aelwydydd yn mynd i ddyled na ellir ei rheoli neu gymryd camau eithafol sy'n golygu na allant ddiwallu eu hanghenion sylfaenol. Mae dros hanner (55%) y rheini sy'n dweud eu bod yn poeni a fyddant yn gallu talu eu biliau ynni yn dweud y byddent yn defnyddio llai o wres neu ddŵr poeth neu'n eu diffodd y gaeaf hwn er mwyn rheoli eu biliau, ac mae 2 o bob 5 (41%) yn dweud y byddai angen iddynt dorri yn ôl ar brydau bwyd neu fynd hebddynt⁵.
- 2.10. Mae aelwydydd sy'n rhagdalau am eu hynni'n arbennig o agored i brisiau cynyddol, gan gynnwys y rheini sy'n byw oddi ar y grid nwy ac sy'n aml yn gorfod talu ymlaen llaw am danwydd gwresogi. Gyda'r gaeaf yn prysur agosáu, yn ystod y misoedd diwethaf, **mae Cyngor ar Bopeth Cymru wedi bod yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiogelu cymorth argyfwng i ddefnyddwyr mesuryddion talu ymlaen llaw lle mae perygl y caiff eu cysylltiad ynni ei ddatgysylltu, ac i aelwydydd sy'n byw oddi ar y grid nwy, gan fod hyn yn rhan hanfodol o'r strwythur cymorth yng**

² Cyngor ar Bopeth Cymru, [Fforddiadwyedd Ynni Hydref 2024](#), Medi 2024

³ Cyngor ar Bopeth Cymru, [Fforddiadwyedd Ynni Hydref 2024](#), Medi 2024

⁴ Cornwall Insight, [Cornwall Insight release final January price cap forecast](#), Tachwedd 2024

⁵ Cyngor ar Bopeth Cymru, [Fforddiadwyedd Ynni Hydref 2024](#), Medi 2024

Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cyllid a ddarparwyd i'r Sefydliad Banc Tanwydd ar gyfer talebau tanwydd a chymorth i aelwydydd oddi ar y grid nwy drwy'r Gronfa Gwres, gyda'r naill a'r llall yn darparu cymorth hanfodol i'r rheini sydd mewn angen⁶.

- 2.11. Felly, rydym yn falch iawn o weld [cadarnhad](#) gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol y bydd cynnydd o £700,000 yn y cyllid fel y gall y cymorth argyfwng hanfodol hwn barhau ochr yn ochr â'r Gronfa Cymorth Dewisol.
- 2.12. Un o'r ffactorau sydd wedi cyfrannu fwyaf at y sefyllfa bresennol fu'r dirywiad ers dechrau'r 2010au yn y rhwyd ddiogelwch nawdd cymdeithasol. Yn anffodus, er bod rhywfaint o newyddion i'w groesawu yng Nghyllideb Hydref Llywodraeth y DU i'r rheini sy'n derbyn budd-daliadau, gan gynnwys gostyngiad yn y swm y gellir ei ddidynnu o daliad Credyd Cynhwysol (UC) rhywun i ad-dalu dyledion, nid oedd y Gyllideb yn cynnig llawer iawn o gysur i'r miliynau o bobl sy'n dibynnu ar Gredyd Cynhwysol ac sy'n ei chael yn anodd talu eu costau byw hanfodol.
- 2.13. **Rydym yn cydnabod nad oes gan Lywodraeth Cymru bwerau dros Gredyd Cynhwysol na system nawdd cymdeithasol ehangach y DU. Fodd bynnag, rydym yn galw arnynt i roi pwysau ar Lywodraeth y DU i roi [diwygiadau](#) hirddisgwyliedig ar waith, yn enwedig i Gredyd Cynhwysol, i helpu i leddfu'r pwysau ariannol, a'r ddibyniaeth ar gymorth mewn argyfwng y mae llawer o hawlwyr Credyd Cynhwysol ledled Cymru yn eu hwynebu ar hyn o bryd.** Mae hyn yn cynnwys:
 - 2.13.1. sicrhau bod taliadau budd-dal o leiaf yn ddigon i dalu costau hanfodol. Roedd bron i chwarter y cleientiaid (24%) a ddaeth i swyddfeydd Lleol Cyngor ar Bopeth yng Nghymru i gael cyngor ar Gredyd Cynhwysol y llynedd hefyd angen atgyfeiriad banc bwyd neu gymorth elusennol arall⁷;
 - 2.13.2. mynd i'r afael â'r cyfnod aros o 5 wythnos ar ddechrau hawliad Credyd Cynhwysol drwy ddisodli benthyciadau ymlaen llaw â grantiau hawlio newydd nad oes angen eu had-dalu;
 - 2.13.3. sicrhau bod cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol yn cael eu cynyddu bob blwyddyn yn unol â'r 30ain canradd o rent y farchnad yn lleol. Y llynedd, canfu ymchwil Cyngor ar Bopeth Cymru gyda rhentwyr preifat yng Nghymru fod gan 3 o bob 4 o'r rheini sydd ar Gredyd

⁶ Cyngor ar Bopeth Cymru, [Cyrraedd pwynt argyfwng: y stori yng Nghymru](#), Hydref 2024

⁷ Cyngor ar Bopeth Cymru, [Cyrraedd pwynt argyfwng: y stori yng Nghymru](#), Hydref 2024

Cynhwysol ddiffyg yn y cymorth maen nhw'n ei gael ar gyfer costau tai a'u rhent⁸; ac

- 2.13.4. ystyried opsiynau ar gyfer cael gwared â'r terfyn 2 blentyn a lleihau niwed y cap budd-daliadau fel rhan o'u hamcan tymor hir i leihau tlodi plant. Mae'r cyfyngiad 2 blentyn (ac eithrio'r rheini sy'n eithriedig)⁹ yn effeithio ar oddeutu 20,000 o aelwydydd yng Nghymru, sy'n golygu eu bod hyd at £3,455 y flwyddyn ar eu colled ar gyfer pob plentyn ychwanegol.
- 2.14. Hyd nes y bydd y diwygiadau uchod, a diwygiadau polisi ehangach eraill yn cael eu rhoi ar waith, bydd **angen parhaus i gynnal a chryfhau cynllun cymorth argyfwng parhaol yng Nghymru, fel y Gronfa Cymorth Dewisol (DAF), i helpu pobl dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.**

3. Pa gamau y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd i fynd i'r afael ag anghenion pobl sy'n byw mewn cymunedau trefol, ôl-ddiwydiannol a gwledig, gan gynnwys adeiladu tai fforddiadwy a chefnogi economïau yn y cymunedau hynny?


- 3.1. Rydym yn gwybod bod mynediad at dai digonol a fforddiadwy yn caniatáu i bobl fwrw gwreiddiau a ffynnu mewn cymunedau. Fodd bynnag, ers dechrau 2024 yn unig mae ein swyddfeydd Cyngor ar Bopeth Lleol yng Nghymru wedi helpu bron i 29,000 o bobl gyda phroblemau'n ymwneud â [fforddiadwyedd tai](#)¹⁰, cynnydd o 89% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2019. Fel y mae Ffigur 1 yn dangos, mae rhentwyr yn ei chael yn arbennig o anodd.

⁸ Cyngor ar Bopeth Cymru, [Ar y dibyn](#), Tachwedd 2023

⁹ Llywodraeth y DU, [UC and CTC claimants: statistics related to the policy to provide support for a maximum of two children, April 2024](#), Gorffennaf 2024

¹⁰ Mae hyn yn cynnwys ôl-ddyledion rhent a morgais, materion digartrefedd, cynnydd mewn rhent/morgais, cyfyngiadau ar y Lwfans Tai Lleol, Taliadau Tai Dewisol, a diffyg llety fforddiadwy/addas yn yr ardal.

Ffigur 1: Nifer y bobl a gafodd gymorth gyda phroblemau ynghylch fforddiadwyedd tai



- 3.2. Yn fwyaf pryderus, bu cynnydd o 7% yn nifer y bobl sy'n ceisio cymorth gennym ar faterion digartrefedd ers yr adeg hon y llynedd, a chynnydd o 133% ers 2019.
- 3.3. Mae argaeledd isel o eiddo i'w rentu, yn gymdeithasol ac yn y sector preifat, yn golygu bod mwy o aelwydydd sy'n dibynnu ar y sector preifat yn cystadlu dros y tai sydd ar gael. Mae hyn yn helpu i gynyddu rhenti'r farchnad, gan adael llawer o aelwydydd incwm is ar ôl. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos mai'r rhent preifat cyfartalog yng Nghymru ym mis Hydref oedd £766 (cynnydd o 7.9% ers yr un cyfnod flwyddyn ynghynt)¹¹. Y llynedd, canfu ymchwil Cyngor ar Bopeth Cymru gyda rhentwyr preifat yng Nghymru fod 1 o bob 4 (24%) yn aml neu bob amser yn cael trafferth talu eu rhent, gyda thri chwarter y rheini sy'n cael trafferth (74%) yn dweud eu bod wedi gorfod mynd heb o leiaf un eitem hanfodol er mwyn talu eu rhent¹².
- 3.4. Gall hyn i gyd gael effaith sylweddol ar lesiant ariannol pobl, eu

¹¹ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, [Private rent and housing prices](#), UK, Tachwedd 2024

¹² Cyngor ar Bopeth Cymru, [Ar y dibyn](#), Tachwedd 2023

hymdeimlad o ddiogelwch a'u hiechyd corfforol a meddyliol. **Felly, rydym yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i sicrhau mynediad at gartrefi teilwng a fforddiadwy i bob rhentwr yn y dyfodol agos yn ogystal â'r tymor hirach.**

4. Hoffai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar nifer o feysydd penodol eraill wrth graffu ar y Gyllideb: Oes gennych chi unrhyw sylwadau penodol i'w gwneud am unrhyw un o'r meysydd a nodir isod?

A oes digon yn cael ei wneud i fynd i'r afael â chostau byw cynyddol a chefnogi'r bobl hynny sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol?

A yw dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â gwariant ataliol yn cael ei gynrychioli wrth ddyrannu adnoddau (Gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau ac yn lliniaru'r galw am wasanaethau yn y dyfodol drwy ymyrryd yn gynnar)?

- 4.1. Mae'r rhagfynegiadau bod prisiau ynni cyfanwerthol yn debygol o aros yn uwch na'r lefelau cyn yr argyfwng am weddill y ddegawd¹³ yn helpu i bwysleisio bod angen gwneud llawer mwy i sicrhau bod biliau'n fwy fforddiadwy i'r rheini sydd ar incwm isel, yn enwedig y rheini sydd â'r anghenion mwyaf o ran ynni.
- 4.2. Gwaethygir y sefyllfa yng Nghymru gan y ffaith bod gennym rai o'r tai lleiaf effeithlon yng Nghymru a Lloegr¹⁴, sy'n golygu ei bod yn ddrud ac yn anodd i wresogi cartrefi, ac maent hefyd yn fwy tueddol o fod â phroblemau lleithder a llwydni.
- 4.3. Dangosodd ein dadansoddiad o'r defnydd o ynni yn ôl Tystysgrif Perfformiad Ynni ym mis Rhagfyr 2022, bod y cartref cyffredin yn talu 'cosb aneffeithlonrwydd' o bron i £350 y flwyddyn o'i gymharu â chartref gyda Thystysgrif Perfformiad Ynni C, gyda'r cartrefi sydd wedi'u hinswleiddio waethaf yn gwario mwy na £900 y flwyddyn.¹⁵
- 4.4. Gyda 3 cartref preifat o bob 4 yn methu cyrraedd y targed Tystysgrif Perfformiad Ynni C, mae gan Gymru gryn dipyn o waith i'w wneud i gyrraedd targedau tlodi tanwydd 2035¹⁶. Mae hyn yn golygu bod dros hanner miliwn o gartrefi'n gwastraffu arian ar wres sy'n dianc o adeiladau heb eu hinswleiddio.

¹³ Cornwall Insight, [New forecast warns power prices to remain elevated until late 2030s](#), Gorffennaf 2023

¹⁴ Y sgôr effeithlonrwydd canolrifol yng Nghymru yw 66 - y gydradd isaf o blith rhanbarthau Lloegr a Chymru, gyda Swydd Efrog a Humber.

¹⁵ Cyngor ar Bopeth, [Arafu i ddim? Tynnu'r rhwystrau rhag rhagor o effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio tai preifat yng Nghymru](#), Rhagfyr 2022

¹⁶ Ibid

- 4.5. Prif amcan Rhaglen Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru yw mynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru, gan fynd ati ar yr un pryd i ddatblygu effeithlonrwydd ynni cartrefi sydd wedi'u hinswleiddio'n wael. Rydyn ni, ac aelodau eraill Clymblaid Tlodi Tanwydd Cymru, wedi bod yn pryderu ers tro byd bod lefel y cyllid sy'n cael ei ddyrannu ar hyn o bryd i 'Rhan Un' y Rhaglen Cartrefi Cynnes yn is o lawer na chyfanswm y cyllid sydd ei angen i gyflawni ei nodau. Er enghraifft, mae amcangyfrifon yn awgrymu bod diffyg o 89% i gyrraedd nodau Tystysgrif Perfformiad Ynni ar gyfer tai rhent preifat.¹⁷
- 4.6. **Felly, mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn credu y dylai Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen â chynlluniau i asesu lefel gyffredinol y cyllid sydd ei angen i gyflawni ei thargedau tlodi tanwydd ar gyfer 2035 er mwyn canfod bylchau yn y cyllid a chyfleoedd cyllido.** Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, defnyddio symiau canlyniadol fformiwla Barnett yn y dyfodol o Gynllun Cartrefi Cynnes Llywodraeth y DU, a hwyluso'r defnydd gorau o gyllid y sector preifat.
- 4.7. Mae llawer o'n hymateb wedi canolbwyntio ar yr angen i gynnal a chryfhau cymorth mewn argyfwng. Er ein bod yn credu bod hyn yn hanfodol, rydym hefyd yn credu **bod angen gwneud mwy i fynd ati'n ffurfiol i integreiddio cymorth ehangach mewn ymyriadau argyfwng, ac mae'r manteision wedi cael eu profi ers tro.**
- 4.8. Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol yn gweithredu'n bennaf drwy rwydwaith o bartneriaid cymeradwy. O safbwynt cadarnhaol, mae hyn yn galluogi'r rhan fwyaf o bobl i gael cymorth i wneud cais i'r Gronfa, ac yn helpu i gyrraedd y rhai mwyaf anghenus. Fodd bynnag, mae hefyd yn rhoi gorddibyniaeth ar bartneriaid yn y trydydd sector i ddelio ag achosion cymhleth, heb roi digon o adnoddau iddynt wneud hynny. O ganlyniad, mae gallu'r sefydliadau hyn i weithio gyda chleientiaid eraill yn brin ac mae mwy a mwy o straen ar y rheng flaen.
- 4.9. Dangosodd tystiolaeth a gasglwyd wrth werthuso Cynlluniau Peilot Prosiect Cronfa Cymorth Dewisol Safonol ac Uwch¹⁸ fod cael cyfeiriad at wasanaethau Cyngor ar Bopeth wedi arwain at nifer o ganlyniadau cadarnhaol i gleientiaid y Gronfa Cymorth Dewisol, gan gynnwys gwelliannau yn eu hamgylchiadau ariannol (gydag enillion incwm blyneddol cyfartalog o £251), yn ogystal â gwell iechyd meddwl ac iechyd cyffredinol.

¹⁷ Y Sefydliad Tai Siartredig, [Datgarboneiddio Sector Rhentu Preifat Cymru](#), Gorffennaf 2022

¹⁸ Cyngor ar Bopeth, Gwerthusiad o Gynllun Peilot Prosiect Cronfa Cymorth Dewisol Uwch Llywodraeth Cymru, 2022 (heb ei gyhoeddi)

- 4.10. Yn ddiddorol, er bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i ddarparu cymorth uniongyrchol i bobl sydd angen help gyda biliau, bwyd a hanfodion eraill, mewn dyraniadau diweddar o'r Gronfa Cymorth i Gartrefi, mae awdurdodau lleol ledled Lloegr hefyd wedi gallu defnyddio'r Gronfa i ategu'r ddarpariaeth drwy gyfeirio, a rhoi cyngor a chymorth ataliol¹⁹.
- 4.11. Ar hyn o bryd, mae Cyngor ar Bopeth yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad llawn o ddyluniad y Gronfa Cymorth Dewisol, meini prawf cymhwysedd a gwerth dyfarniadau i asesu a yw'n dal i ddiwallu anghenion pobl mewn argyfwng a/neu bobl sy'n wynebu caledi ariannol arbennig. **Credwn y dylai'r adolygiad hwn gynnwys archwilio sut y gellid ymgorffori dull gweithredu mwy ataliol yn nyluniad y Gronfa drwy system partner integredig gydag adnoddau digonol.** Ein nod yw cryfhau'r Gronfa Cymorth Dewisol.

5. A yw Llywodraeth Cymru'n darparu digon o gymorth i sefydliadau'r trydydd sector, sy'n wynebu mwy o alw am wasanaethau o ganlyniad i'r argyfwng costau byw a'r pandemig?

- 5.1. Mae'r caledi ariannol cynyddol a wynebir gan unigolion a theuluoedd ledled Cymru'n rhoi pwysau aruthrol ar ein swyddfeydd Cyngor ar Bopeth lleol, yn ogystal ag ar fudiadau trydydd sector eraill. Mae hyn yn debygol o waethygu yn dilyn y newidiadau i gyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Llywodraeth y DU. Er bod y cynnydd yn y Lwfans Cyflogaeth yn rhoi rhywfaint o amddiffyniad i'n swyddfeydd Cyngor ar Bopeth lleol lleiaf, bydd y rhan fwyaf yn ei chael yn anodd talu'r gost uwch o gyllidebau sydd eisoes dan straen ac yn aml yn gostwng. Ar gyfer y swyddfeydd mwyaf, bydd cost ychwanegol o rhwng £150,000 a £200,000. Ni all hyn ond arwain at niwed i'r bobl a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ar adeg pan fo eisoes straen difrifol ar ein gwasanaethau.
- 5.2. Mae'r trydydd sector yn cyflogi canran uwch o staff rhan amser na'r sector preifat neu'r sector cyhoeddus. Mae ein swyddfeydd lleol hefyd yn poeni y gallai'r newidiadau hyn fod yn ddatgymhelliad i gyflogi gweithwyr rhan-amser, gan beryglu swyddi. Gallai hyn gael effaith anghymesur ar bobl anabl neu'r rheini sydd â chyflyrau iechyd hirdymor, gofalmwr a menywod – pob un ohonynt yn fwy tebygol o weithio'n rhan-amser.
- 5.3. Mae Prif Weithredwr Cyngor Ar Bopeth wedi ysgrifennu at y Canghellor yn ei hannog i gydnabod rôl hollbwysig cymdeithas sifil wrth ddarparu

¹⁹ Yr Adran Gwaith a Phensiynau, [1 October 2024 i 31 March 2025: Household Support Fund guidance for county councils and unitary authorities in England](#), Medi 2024

gwasanaethau cyhoeddus hanfodol **drwy ymestyn yr eithriad sector cyhoeddus o gael mwy o Gyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr i fudiadau gwirfoddol. Credwn fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried sut i gefnogi sefydliadau trydydd sector a fydd o dan straen ariannol ychwanegol.**

- 5.4. Yn aml, elusennau fel ni yw'r pwynt cyswllt cyntaf mewn sefyllfaoedd argyfwng ac yn y blynyddoedd diwethaf, wrth i'r galw am y math hwn o gymorth gynyddu, mae mudiadau'n gorfod diwallu anghenion cynyddol gydag adnoddau cyfyngedig. Mae tystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwil ar gyfer ein hadroddiad Cyrraedd Pwynt Argyfwng²⁰ yn datgelu'r darlun sy'n peri pryder, sef bod rhwyd ddiogelwch y trydydd sector yn dechrau datod. Clywsom gan fudiadau sydd wedi gweld gostyngiad yn eu cyllid, yn ogystal â staff sydd dan bwysau gormodol ac sy'n delio â nifer llethol o gleientiaid.
- 5.5. Mae ein cynghorwyr yn arbenigwyr yn eu meysydd, a gall cyngor newid bywyd, ac yn aml mae'n gwneud hynny. Fodd bynnag, yn gynyddol, mewn mwy a mwy o achosion mae ein cynghorwyr yn wynebu tasg amhosibl. Er eu bod yn gwneud popeth yn eu gallu i helpu rhywun, drwy gynyddu eu hincwm neu leihau eu costau, mae llawer o gleientiaid yn dal i fethu â fforddio'r pethau sylfaenol. Mae'r sefyllfa hon yn cael effaith negyddol ar y cleientiaid dan sylw, a hefyd yn rhoi straen ychwanegol ar iechyd meddwl ein cynghorwyr ein hunain.
- 5.6. Mewn sesiynau craffu blaenorol ar y gyllideb, rydym wedi tynnu sylw at y pwysau y mae cyllidebau gwastad wedi'i roi ar **gyflawni** prif raglenni Llywodraeth Cymru, fel y Gronfa Gynghori Sengl. Hoffem ategu'r pwynt hwn ac yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried anghenion partneriaid cyflawni wrth bennu'r gyllideb derfynol.

²⁰ Cyngor ar Bopeth Cymru, [Cyrraedd pwynt argyfwng: y stori yng Nghymru](#), Hydref 2024